

Y CORFF A'R YSBRYD:  
DARLLEN DYLAN THOMAS A W. D. DAVIES  
WEDI'R HOLOCOST

*Daniel G. Williams*

*Abstract*

This is a version of the Cymmrodorion annual lecture which was presented at the National Eisteddfod, Tregaron, in August 2022. It considers the relationship between the religious thought of theologian W. D. Davies (1911–2001) and the poet Dylan Thomas (1914–1953), who met during Thomas's third visit to the United States. Davies's seminal *Paul and Rabbinic Judaism* (1948) explored the emergence of Pauline Christianity from Rabbinic Judaism. While Judaism is the religion of a particular people and of the body, Christianity claims a universality of the spirit. It is argued that a tension between these forces manifests itself in the thought of W. D. Davies and in the poetry of Dylan Thomas. While the Jewish insistence on the particularisms of culture carry a significant critical force against the disembodiment and assimilative tendencies of Christianity, neither the particular nor the universal are devoid of their own dark and frightening aspects.

I

Yr hyn sydd yn dilyn yw darlith flynyddol y Cymmrodorion a draddodais ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron, ym mis Awst 2022.<sup>1</sup> Cychwynnais gan ddyfynnu Groucho Marx, a ddywedodd: 'Ni fyddwn am ymuno ag unrhyw glwb fyddai'n fy nerbyn i'n aelod ohono'.<sup>2</sup> Mae'r jôc yn chwarae â'r syniad bod Groucho yn gwrthod coflaid ei bobl ei hun, ac yn arddel agweddau dilornus cymdeithas tuag ato a'i bobl. Jôc Iddewig, a jôc go Gymreig hefyd y gellid ei hadrodd gan un a fyddai'n troi ei gefn, dyweder, ar y Cymmrodorion tra'n deisyf ymuno â'r Garrick Club. Serch Groucho, roeddwn yn falch iawn o'r gwahoddiad i draddodi'r ddarlith flynyddol, yn arbennig dan gadeiryddiaeth yr Athro Prys Morgan, ac ym mhresenoldeb Rachel Davies, merch W. D. Davies, oedd yn ymweld â Chymru o Dde Carolina. Mae'r ysgrif isod yn dilyn yr hyn a draddodais ar y dydd, fwy neu lai. Cychwynnodd y gwaith trwy fyfyrion ar un o gerddi tywyllaf a mwyaf heriol

<sup>1</sup> Gellir clywed recordiad o'r ddarlith gyda sleidiau yma: <https://www.cymmrodorion.org/talk/dylan-thomas-ac-w-d-davies-barddoniaeth-a-diwyndiaeth-wedir-holocost/> (Cyrchwyd: Mawrth 2023).

<sup>2</sup> Trafodir y jôc gan Ruth R. Wisse yn *No Joke: Making Jewish Humour* (New Jersey: Princeton, 2013). 'Since the presumptive appeal of Groucho's joke is proportional to one's discomfort with one's identity, it bears noting that this became his most famous line', t. 118.

Dylan Thomas, 'Altarwise by owl-light'. Bu'n rhaid i mi dorri fy ymdriniaeth ar y gerdd honno i gadw o fewn terfynau amser ar y dydd. Rydw i wedi manteisio ar y cyfle yma i adfer y dadansoddiad hwnnw.

## II

Yn ddigon addas o ystyried yr hyn sydd yn dilyn, fe gychwynnaf fel pregethwr â dau ddarlleniad. Daw'r cyntaf o gyfrol John Malcolm Brinnin, *Dylan Thomas in America*. Bardd Americanaidd nid anenwog oedd Brinnin, ond mae'n cael ei gofio yn bennaf heddiw fel prif drefnydd pedair taith Dylan Thomas i'r Taleithiau rhwng 1950 a 1953. Mis Mai 1953 yw hi, ac medd Brinnin yn ei gyfrol ynghylch y teithiau hynny:

He flew off to North Carolina, where he was to give a reading that night on the Duke University campus at Durham.

By early afternoon of the next day he was back in Boston. Visibly wearied by the quick round-trip flight, he explained that he had been to bed for only two hours after staying up all night exchanging stories with a Welsh clergyman who was a member of the Duke faculty.<sup>3</sup>

Fe ddychwelaf at y dyfyniad yma. Daw'r ail ddarlleniad o'r *Testament Newydd*. Dyma adnodau chwech ar hugain hyd naw ar hugain o drydedd bennod 'Llythyr Paul at y Galatiaid':

Oblegid yr ydych bawb, trwy ffydd, yn blant Duw yng Nghrist Iesu. Oherwydd y mae pob un ohonoch sydd wedi ei fedyddio i Grist wedi gwisgo Crist amdano. Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chwi oll yng Nghrist Iesu. Ac os ydych yn eiddo Crist, yna had Abraham ydych, etifeddion yn ôl yr addewid.<sup>4</sup>

Datganiad eglur o gyffredinoliaeth Gristnogol [*Christian Universalism*] a geir yn llythyr yr Apostol Paul. Rwy'n mynd i gychwyn trwy drafod goblygiadau y gyffredinoliaeth honno. Gobeithio bydd perthnasedd hyn yn amlwg erbyn i'r ysgrif ddod i ben, ond bydd rhaid i fi erfyn am eich amynedd nes i hynny ddod yn amlwg. Fe wnafl hepgor yr emyn a'r weddi, felly, gan fynd ymlaen â'r bregeth.

<sup>3</sup> John Malcolm Brinnin, *Dylan Thomas in America* (New York: The Viking Press, 1957), t. 205.

<sup>4</sup> Llythyr Paul at y Galatiaid 3:26–29.

## III

Yn 1997 cyhoeddwyd dwy gyfrol ar yr Apostol Paul a oedd yn cynnig dehongliadau hollol wahanol o'i 'Lythyr at y Galatiaid'. Cyfrol gan yr athronydd Ffrengig Alain Badiou oedd *Saint Paul: La Fondation de l'universalisme* ['Sant Paul – Sylfaen Cyffredinolaeth'].<sup>5</sup> Er mai athronydd seciwlar yw Badiou, mae'n gweld ymdrech Paul i ymgynraedd at fyd lle nad oes Iddewon na Groegiaid, caeth na rhydd, gwryw na benyw, yn ymgnawdoliad o'r angen heddiw am athroniaeth gyffredinol, un sydd yn uno'r ddynoliaeth yn hytrach na'n gwahanu. Camp fawr Paul, yn ôl Badiou, fu iddo ryddhau neu wahanu'r syniad o 'wirionedd' – gwirionedd Crist yn achos Paul – oddi wrth afael unrhyw bobl neu gymuned benodol. Nid yr etholedig rai a fyddai'n caffael y gwirionedd bellach, ond y ddynoliaeth gyfan.<sup>6</sup>

Nid cyffredinoliaeth ffals y gwledydd imperialaidd yw cyffredinoliaeth Paul yn ôl Badiou. Rydym yn ddigon cyfarwydd fel Cymry o'r modd y gall gwledydd grymus honni eu bod yn cynrychioli gwerthoedd gorau gwareddiad a hynny yn ei dro yn cyfiawnhau eu hawl i orfodi eu diwylliant ar bobloedd eraill. Dyma'r math o gyffredinoliaeth y mae theori ôl-drefedigaethol yn mwynhau ei ddatgymalu, trwy dynnu sylw at y ffaith mai arferion cenedl benodol yn cael eu mynegi mewn iaith benodol yw'r 'gwareddiad' honedig gyffredinol hwn.<sup>7</sup> Ond ymysg y distadl, a defnyddio term Beiblaidd, ymysg y rhai a esgymunwyd gan gymdeithas a hanes y mae Badiou yn gwreiddio'r hyn y mae'n ei alw'n 'gyffredinolrwydd', a hynny yn unol â dysgeidiaeth Crist a drodd at y tlawd, y godinebwr, y gwahanglwyf ac yn y blaen.<sup>8</sup> Mae gwirionedd Crist i Badiou yn gyffredinol am ei fod yn torri ar draws y dulliau arferol o feddwl a bod. Yn hytrach na chodi un diwylliant neu bobl i statws y cyffredinol, deillia'r cyffredinol o broses o ymddihatra a thynnu i ffordd.<sup>9</sup> Efallai mai'r mynegiant mwyaf croiw o'r byd-olwg yma mewn diwylliant poblogaidd yw cân John Lennon 'Imagine', lle dychmygir byd *heb* ieithoedd, *heb* grefydd, *heb* ryfel.<sup>10</sup> Mae Lennon, fel Badiou, yn tynnu allan yr hyn sydd yn ein gwahanu, gan adael gwagle sydd yn ein huno. '*Nid oes*' yw ymadrodd Paul, gan ein gadael 'oll yn un' yng Nghrist.

<sup>5</sup> Alain Badiou, *Saint Paul: The Foundation of Universalism*. Cyfieithwyd gan Ray Brassier (Stanford: Stanford University Press, 2003). Ceir talfyriad defnyddiol o ddatl ei gyfrol yn Alain Badiou, 'St Paul, Founder of the Universal Subject' yn John D. Caputo a Linda Martin Alcoff (gol.), *St. Paul Among the Philosophers* (Bloomington: Indiana University Press, 2009), tt. 27–38.

<sup>6</sup> Alain Badiou, *Saint Paul: The Foundation of Universalism*, t. 5.

<sup>7</sup> Ceir trafodaeth ddidorol ar hyn yn Vivek Chibber, *Postcolonial Theory and the Specter of Capital* (Llundain: verso, 2013), tt. 14–20. Gellir ystyried J. R. Jones, *Prydeindod* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1966) yn enghraifft Gymraeg o'r feiriadaeth ar gyffredinoliaeth ffals.

<sup>8</sup> Gweler Slavoj Žižek, *The Fragile Absolute: Or Why is the Christian Legacy Worth Fighting For* (Llundain: Verso, 2000), tt. 115–6.

<sup>9</sup> Alain Badiou, *Saint Paul*, tt. 13–14.

<sup>10</sup> John Lennon, 'Imagine: Official Video': <<https://www.youtube.com/watch?v=ugrAo8wEPiI>> (Cyrchwyd 15 Mawrth, 2023).

I Paul, y mae Crist trwy ei groeshoeliad yn talu dyled y ddynoliaeth i Dduw, yn cymryd euogrwydd ein pechod oddi wrthym, a thrwy hynny yn chwalu ffiniau neilltuolrwydd yr Hen Destament gan ymagor at gyffredinoliaeth y Testament Newydd. Yn y *Torah* neu'r Hen Destament, yr Hebraid yw pobl etholedig Duw ac mae geiriau a gweithredoedd *Yahweh* yn berthnasol iddyn nhw yn benodol. Yn y Testament Newydd, ar y llaw arall, mae'r Efengyl yn cael ei ehangu a'r ddynoliaeth gyfan yn cael ei gofleidio gan Dduw. Mae'r gyffredinoliaeth Gristnogol hon wedi bod yn sail i ymgyrchoedd blaengar trwy hanes, gyda'r ymgyrch i ddod â'r gaethfasnach i ben, a mudiad hawliau sifil Martin Luther King Jr., yn enghreifftiau nodedig. Cred Badiou bod seiliau chwyldro y dyfodol i'w canfod yn y gyffredinoliaeth yma hefyd.<sup>11</sup>

Nid dyma farn Daniel Boyarin, awdur yr ail gyfrol, *A Radical Jew: Paul and the Politics of Identity*.<sup>12</sup> Os bu cyffredinoliaeth yn arf mewn brwydrau gwrth-hiliol, gall hefyd, noda Boyarin, fod yn frawychus o anoddefgar. Os ydym i fod 'oll yn un', beth am y rheini – yn gymunedau ac unigolion – nad ydynt am fod yn rhan o'r 'un'? Mewn cymdeithas sydd wedi ei seilio ar gyffredinoliaeth Gristnogol, gall pethau edrych yn dywyll i'r rhai sy'n ymwrthod â'r 'un'; sy'n parhau i ddilyn cyfraith Lefiticus ac yn cael eu henwadu, dyweder, neu sy'n parhau i siarad iaith leiafrifol. Wrth arddel cyffredinolrwydd wedi ei seilio ar unffurfiaeth mae Paul yn rhoi cychwyn ar ffurfiau o anoddefgarwch enbyd. Yn ôl Boyarin, os nad Paul achosodd dwf gwrth-Semitiaeth, ef roddodd gychwyn ar weld Iddewon fel problem.<sup>13</sup>

Felly, mae Badiou a Boyarin yn cytuno i'r graddau eu bod yn ystyried Paul fel ffynhonnell cyffredinolrwydd Cristnogol. Ond maent yn asesu goblygiadau'r cyffredinolrwydd hwnnw yn wahanol iawn. Paul y naill yn hollti'r canolfuriau a thrwy hynny yn creu sail i hawliau dynol a heddwch i'r ddynoliaeth. Paul y llall yn ddall i wahaniaethau diwylliannol, ac yn gosod y sail i anoddefgarwch, unffurfiaeth a hil-laddiad yr Holocaust.<sup>14</sup>

#### IV

Yr hyn sydd yn ddiddorol, ac yn berthnasol yma, yw bod Daniel Boyarin yn cyflwyno ei gyfrol 'For W. D. Davies'.<sup>15</sup> Noda Boyarin ymhellach yn ei ddiolchiadau i'w gyfrol ddeillio o bapur a draddododd ym Mhrifysgol Duke ar

<sup>11</sup> Badiou, *Saint Paul*, tt. 36–39.

<sup>12</sup> Daniel Boyarin, *A Radical Jew: Paul and the Politics of Identity* (Berkeley: University of California Press, 1994).

<sup>13</sup> Daniel Boyarin, *A Radical Jew*, tt. 232–3. Gweler hefyd Boyarin, 'Paul Among the Antiphrilosopers; or, Saul among the Sophists' yn *St Paul Among the Philosophers*, tt. 109–141.

<sup>14</sup> Ceir trafodaeth lachar ar y ddau yn Jordan Osserman, *Circumcision on the Couch: The Cultural, Psychological and Gendered Dimensions of the World's Oldest Surgery* (Llundain: Bloomsbury, 2022), tt. 63–93.

<sup>15</sup> Boyarin, *A Radical Jew*. Tudalen gyflwyniad heb rif, lle nodir 'For W. D. Davies' ac ynna yn yr Hebraeg 'I'r Tangnefeddwr ar gyrraedd 80'. Diolch i Jasmine Donahaye – a'i mam – am y cyfieithiad.

achlysur dathlu penblwydd W. D. Davies yn bedwar-ugain oed, ac mae'n diolch yn benodol i Davies am ei ymatebion treiddgar a defnyddiol i'w waith.<sup>16</sup>

Pwy oedd y W. D. Davies hwn, felly? Rhaid i mi gyfaddef na wyddwn i pwy oedd e pan ddarllenais gyfrol Boyarin, *A Radical Jew*, rhyw bymtheg mlynedd yn ôl. Nid yw'n ymddangos yn y *Gwyddionadur*, ond mae cofnod campus yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* yn Densil Morgan, ac y mae John Tudno Williams wedi trafod tipyn ar ei syniadaeth yn ei gyfrol ddiweddar ar *Ddiwinyddiaeth Paul*.<sup>17</sup> Ar ben hynny yn y diweddariad o'i gyfrol ar Dylan Thomas yng nghyfres 'The Writers of Wales' mae Walford Davies yn trafod ei gyfeillgarwch â W. D. Davies, ac yn nodi rhai o sylwadau y diwinydd am y bardd.<sup>18</sup> Nid yw W. D. Davies yn angof, felly, ond nid yw yn ffigwr amlwg yn nhrafodaethau diwyllianol Cymru heddiw ac mi fyddai'n werth i mi ei gyflwyno cyn ceisio unioni rhywfaint ar y cam hwnnw.

Wedi ei eni yng Nglanaman a derbyn ei addysg gynnar yng Nyffryn Aman cyn mynd ymlaen i Gaerdydd, Aberhonddu a Chaergrawnt, fe dreuliodd W. D. Davies ran helaethaf ei fywyd yn yr Unol Daleithiau. Fe'i gwahoddwyd yn 1950 i'r gadair mewn Diwinyddiaeth Feiblaidd yn Mhrifysgol Duke, Durham, Gogledd Carolina a dyna lle y cyfarfu â Dylan Thomas yn 1953 gan aros ar ddihun trwy'r nos yn ôl yr adroddiad gan John Malcolm Brinnin a ddyfynnais uchod. Bu'n Athro Diwinyddiaeth yn Princeton ac Union Seminary, Efrog Newydd, ac yn Texas hefyd. Roedd yn gyfeillgar gyda rhai o feddylwyr diwinyddol amlwg y Taleithiau, gan gynnwys Reinhold Niebuhr ac Abraham Joshua Heschel, ac fe fu'n gyfarwyddwr ar lu o fyfyrwyr disglair, gan gynnwys E. P. Sanders.<sup>19</sup> Bu farw ym Mehefin 2001 yn Durham, Gogledd Carolina. Er iddo fyw yn yr Unol Daleithiau am hanner canrif a mwy (gan ddod yn ddinesydd Americanaidd yn 1956), ym mynwent Capel Hen Bethel, Glanaman, y claddwyd ei lwch ef yn 2001 a'i wraig Eurwen yn 2002, hithau hefyd yn blentyn i löwr o Lanaman.<sup>20</sup> Yn wir, mae ei lyfrgell ym Mhrifysgol Duke yn tystio i'w ddi-ddordeb parhaol yng ngwleidyddiaeth a diwylliant Cymru, a bu'n llywydd y Cymry ar Wasgar yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1970.<sup>21</sup>

<sup>16</sup> Boyarin, *A Radical Jew*, t. x.

<sup>17</sup> Densil Morgan, 'W. D. Davies', <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-DAVI-DAV-1911>> (Cyrchwyd 15 Mawrth, 2023]. John Tudno Williams, *Diwinyddiaeth Paul* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2020).

<sup>18</sup> Walford Davies, *Dylan Thomas: Writers of Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), tt. 167–8. Gweler hefyd ysgrif gan J. Gwyn Griffiths, 'Cyfarch yr Athro W. D. Davies', *Y Traethodydd*, Gorffennaf 1985 Cyf. CXL, tt. 115–123, a chyfweliad rhwng John Roberts a W. D. Davies' yn *Y Traethodydd*, Cyf. 156 (2001), tt. 209–223.

<sup>19</sup> Mae'r berthynas â Rabi Abraham Joshua Heschel (1907–1972) yn arbennig o ddiddorol yng nghyd-destun yr ysgrif hon. Mae Heschel yn enwog am chwarae rhan amlwg yng ngorymdeithiau hawliau sifil Martin Luther King, Jr. Traddododd W. D. Davies deyrnged yn ei angladd: 'Conscience, Scholar, Witness,' *America*, Vol. 128, No. 9 (March 10, 1973), tt. 213–215.

<sup>20</sup> Mae'r diddanwr Ryan Davies wedi ei gladdu yn yr un fynwent, a rhieni'r cerddor John Cale hefyd. Tystia Rachel Davies, mewn nodyn personol, y byddai John Cale yn galw ar W. D. Davies a'r teulu yn Efrog Newydd.

<sup>21</sup> W. D. Davies Papers: <[https://archives.lib.duke.edu/catalog/uadvies\\_aspace\\_ef4d2f13fb4dfc440a9afb1e9646cd10](https://archives.lib.duke.edu/catalog/uadvies_aspace_ef4d2f13fb4dfc440a9afb1e9646cd10)> (Cyrchwyd 15 Mawrth 2023).

Roedd Davies yn awdur lluo o gyfrolau dylanwadol, gyda *The Setting of the Sermon on the Mount* (1964), *Invitation to the New Testament* (1966) a *The Gospel and the Land* (1974) yn eu plith.<sup>22</sup> Ond ar y gyfrol a roddodd gychwyn ar ei yrfa ddisglair, *Paul and Rabbinic Judaism* (1948) mae fy mhwyslais yn yr ysgrif hon.<sup>23</sup> Fel Iddew Phariseaidd a gredai bod y Meseia wedi dod ar ffurf Crist y dylem ddeall Paul, medd Davies. Y duedd oedd i ddarllen Paul yng nghyd-destun diwyllianau Groeg a Rhufain gan amlygu Helenistiaeth ei feddwl. Tra nad wrthodai Davies y persbectif yna yn llwyr, mae ei gyfrol drwyddi yn nodi sut y gellir darganfod seiliau'r hyn a ystyrir yn Helenistaidd yn y traddodiad o Iddewiaeth Rabinaidd a ymfurfiodd yn y ganrif gyntaf a'r ail. Pwyslais canolog Davies yw na wrthododd Paul ei Iddewiaeth wrth arddel, ac yn wir, ddiffinio, Cristnogaeth.

A Paul who when he became a Christian had ceased to be a 'Jew' would not be the Paul that we know; it was part of his very integrity as a man that he should retain his Hebrew accent, as it were, even in his new faith. We believe that Paul's concern for 'Israel after the flesh' is a tribute to the profundity of his thought no less than to the warmth of his affections, because, as we have previously asserted, it is a sublimation of nationalism in Christ such as Paul yearned for his own people that must always be desired and not its suppression or extinction.<sup>24</sup>

Yn ymarferol pan ddaw at eu heffeithiau hir-dymor ar hunaniaeth ethnig, does fawr o wahaniaeth rhwng 'sublimation' a 'suppression' hyd y gwelaf i. Mater arall yw 'extinction' wrth gwrs, a gorwedd cysgod yr Holocost dros ddadansoddiad Davies. Mewn perthynas â 'sublimation', mae'n werth nodi i W. D. Davies gadw ei acen Gymraeg serch ei holl flynyddoedd yn yr Unol Daleithiau a credai mai ei gyfraniad canolog – yn ei eiriau ei hun mewn cyfweiliad â'r newyddiadurwr John Roberts yn 2001 – oedd:

I wneud tegwch â gwreiddiau Cristnogaeth mewn Iddewiaeth, gan ddadlau mai parhad o Iddewiaeth yw Cristnogaeth, nad oes dim gelyniaeth rhwng y ddwy grefydd, ond bod Cristnogaeth yn llyncu Iddewiaeth ac yn parhau Iddewiaeth mewn ffordd newydd. Nid y gwahaniaeth rhwng Iddewiaeth a Christnogaeth sydd yn bwysig ond eu perthynas nhw.<sup>25</sup>

<sup>22</sup> W. D. Davies, *The Setting of the Sermon on the Mount* (Cambridge: Cambridge University Press, 1964); *Invitation to the New Testament: A Guide to its Main Witnesses* (New York: Doubleday and Co., 1966); *The Gospel and the Land: Early Christianity and Jewish Territorial Doctrine* (Berkeley: University of California Press, 1974).

<sup>23</sup> W. D. Davies, *Paul and Rabbinic Judaism: Some Rabbinic Elements in Pauline Theology* (London: SPCK, 1962).

<sup>24</sup> Davies, *Paul and Rabbinic Judaism*, tt. 321–22.

<sup>25</sup> John Roberts, 'W. D. Davies (1911–2001)', *Y Traethodydd* 156 (2001), tt. 209–223. Yma: t. 221.

Os yw ‘suppression’ yn cael ei orfodi, tra bod ‘sublimation’ yn cael ei ewyllysio, cymhathiad y lleiafrif yw canlyniad y ddau. Yn wir, ymdebyga’r ‘llyncu’ neu’r ‘sublimation’ at y ‘cyfraniad’ y byddai Mathew Arnold a Rhyddfrydwyr Oes Fictoria yn gwahodd y Cymry i’w gynnig i’r Ymerodraeth Brydeinig yn bris am roi’r gorau i’w harferion diwylliannol neilltuol.<sup>26</sup> Wrth ymhelaethu ar y berthynas rhwng y ‘llyncu’ a’r ‘parhau mewn ffordd newydd’ yn *Paul and Rabbinic Judaism* dyfynna W. D. Davies yr adnodau canlynol o’r llythyr at yr Effesiaid:

Gan hynny, chwi oedd gynt yn Genhedloedd o ran cnawd, chwi sydd yn cael eich galw yn ddiennwadedig gan y rhai a elwir yn enwaededig (ar gyfrif gwaith dwylo dynol ar y cnawd), chwi, meddaf, cofiwch eich bod yr amser hwnnw heb Grist, yn ddiethriaid i ddinasyddiaeth Israel, yn estroniaid i’r cyfamodau a’u haddewid, heb obaith a heb Dduw yn y byd. Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist.<sup>27</sup>

‘In short’ medd Davies, ‘the Gentiles in Christ had ceased to be strangers and foreigners and had become Israelites in the true sense’.<sup>28</sup> Ymdrech sydd yma i esbonio, a cheisio cysoni’r tyndra rhwng cyffredinoliaeth Cristnogaeth Paul a neilltuolrwydd ei Iddewiaeth. ‘It is from this conflict’ medd Davies, ‘that Paul was released when he became a Christian. The release came to him with the realisation that it was no longer devotion to the Torah which was primary, but faith in Christ’.<sup>29</sup> Felly fe orwedd dadansoddiad Davies rywle rhwng Alan Badiou a Daniel Boyarin. Mae W. D. Davies yn dipyn agosach at Boyarin pan â ati i archwilio cynhysgaeth Iddewig Paul. Ond pan mae’n sôn am Gristnogaeth yn cynnig ‘rhyddhad’ (‘release’) o’r tyndra rhwng ei ymlyniad wrth ei bobl ei hun a’i weledigaeth o ddynoliaeth gyffredinol, yna mae Davies yn amenio dadl Alain Badiou sydd hefyd yn disgrifio Paul fel un sydd yn ‘rhyddhau’ ei hun, â’r ddynoliaeth, o rwydi’r gorffennol.

Gallwn ymhelaethu ar y syniad o ‘ryddhad’ mewn perthynas â diffiniad newydd Paul o enwaediad, hynny yw, arfer yr Iddewon o ‘dorri ymaith flaengroen yr aelod dirgel’ (diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru*). Yn y dyfyniad o’r llythyr at yr Effesiaid uchod, awgrymir bod ‘gwaed Crist’ yn uno’r ddynoliaeth ac yn di-orseddu enwaediad yr Iddewon. Yn ei lythyr at y Rhufeiniad, medd Paul: ‘Y gwir Iddew yw’r Iddew cuddiedig, a’r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol nid llythrennol’.<sup>30</sup> Nododd Sigmund Freud bwysigrwydd y datganiad yma. Yn ei gyhoeddiad olaf *Der Mann Moses und die Monotheistische Religion* [Y Dyn Moses a’r Grefydd Fonotheistaidd] awgryma Freud i Paul gario Iddewiaeth ymlaen a’i

<sup>26</sup> Rwy’n trafod hyn mewn peth manylder yn Daniel G. Williams, *Ethnicity and Cultural Authority: From Arnold to Du Bois* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2006), tt. 42–52.

<sup>27</sup> Yn Saesneg yn *Paul and Rabbinic Judaism*, t. 113. Effesiaid 2:11–13.

<sup>28</sup> Davies, *Paul and Rabbinic Judaism*, t. 113.

<sup>29</sup> Davies, *Paul and Rabbinic Judaism*, t. 67.

<sup>30</sup> Llythyr Paul at y Rhufeiniad, 2:29.

ddinistrio yn y broses. Fe wrthododd Paul statws etholedig ei bobl a'i marc nodweddiadol – enwaediad – gan ganiatáu i'r grefydd newydd fod yn un cyffredinol oedd ar gael i bawb. Tra awgryma W. D. Davies bod Iddewiaeth 'yn parhau ... mewn ffordd newydd' ar ffurf Cristnogaeth, yn ôl Freud, gyda thwf Cristnogaeth fe drodd Iddewiaeth yn 'ffosil'.<sup>31</sup> I Badiou, roedd dihidrwydd Paul ynghylch enwaediad yn gam pwysig a dorrodd y gwahanfur rhwng Iddewon a'r Cenhedloedd. Ond fe wêl Boyarin elfen beryglus yn nihidrwydd Paul. Wrth droi ei gefn ar enwaediad y corff roedd Paul hefyd yn troi ei gefn ar neilltuolrwydd ei bobl, yn troi ei gefn ar y corff yn enw'r ysbryd ac yn agor y drws i wrth-Semitiaeth a mathau eraill o orthrwm.<sup>32</sup>

Nid yw W. D. Davies yn mynd mor bell â hyn, ond bob hyn a hyn mae goblygiadau arswydus syniadaeth Paul fel petasent yn codi yn anymwybodol yn ei destun. 'A man's national heritage cannot be divested except at a heavy price' medd y diwinydd o Lanaman wrthym yn niweddglu ei gyfrol, er enghraifft, ac â yn ei flaen:

Paul is not the only 'universalist' Christian who has charged his own nation with a special function in the providence of God; indeed, it was regarded as axiomatic in progressive circles in the nineteenth century, and is still so regarded in certain quarters that every nation possesses a divine right to self expression, a belief which logically differs little except in degree from Paul's insistence on the significance of 'Israel after the flesh'. Modern Christendom which has witnessed the growth of such phenomena as Nazism and British-Isrealitism should not find it difficult to recognize that strict consistency in resolving the rival claims of 'nationalism' and religion is not easy of attainment.<sup>33</sup>

Cyhoeddwyd *Paul and Rabbinic Judaism* yn 1948, ac roedd ergyd y ddadl ynghylch gwreiddiau Iddewig Cristnogaeth i'w themlo y tu hwnt i'r byd diwinyddol yn y blynyddoedd wedi'r Holocost. Ond mae pwynt W. D. Davies ynghylch 'strict consistency' yn gywir, oherwydd os bu Paul yn gorfod wynebu 'a conflict between the claims of the old Israel after the flesh and the new Israel after the Spirit, between his nationalism and his Christianity' yna mae'r un peth yn wir am y diwinydd o Gymro yn Duke.<sup>34</sup> Yn wir, byddwn yn awgrymu mai'r tyndra rhwng ei Gymreictod neilltuol a'i Gristnogaeth gyffredinol sydd wrth wraidd syniadaeth W. D. Davies.

<sup>31</sup> Sigmund Freud, *Moses and Monotheism: Three Essays* (1939) yn *The Origins of Religion: The Penguin Freud Library Volume 13* (London: Penguin, 1990), t. 333.

<sup>32</sup> Daniel Boyarin, *A Radical Jew*, tt. 80–82.

<sup>33</sup> Davies, *Paul and Rabbinic Judaism*, t. 321.

<sup>34</sup> Davies, *Paul and Rabbinic Judaism*, t. 58.



## V

Beth sydd gan hyn oll i'w wneud â Dylan Thomas? Y bardd Americanaidd Kenneth Rexroth a nododd ynghylch cerddi Dylan Thomas, 'they had to find endurance in a world of burning cities and burning Jews'.<sup>35</sup> Ond a oes unrhyw beth y tu hwnt i'r cyd-destun hanesyddol a'r ffaith iddynt ddigwydd cwrdd yn 1953 i gysylltu'r bardd a'r diwinydd? Os mai o gwmpas tyndra rhwng y cyffredinol a'r neilltuol y mae'r dadansoddiadau o'r Apostol Paul wedi troi, yna gellir gwneud dadl debyg yn achos Dylan Thomas. Bardd y cyffredinol yw Thomas yn ôl sawl beirniad diweddar. Ei gamp, meddent, oedd dianc rhag hualau gwlad, a bro ac iaith. 'He is the poet of the universal and of universing' medd John Wilkinson, gan weld yr elfen gyffredinol, holl-gwmpasog yng ngwaith Dylan yn cael ei fynegi nid yn unig yng nghynnwys ei gerddi – lle mae themâu megis beichiogrwydd, geni, marwolaeth a rhyw yn ymddangos yn fynyh – ond hefyd yn ffurf ei farddoniaeth, yn enwedig ei linellau hir â'i ddefnydd prin o atalnodau.<sup>36</sup> Rhydd Dai Smith wedd ddiwylliannol-wleidyddol i'r cyffredinolrwydd yma gan nodi am Dylan Thomas yn yr 1990au: 'he appeared to have less and less to say in a climate of national essentialism where the language he did not speak had become the token badge of a simplified identity he did not share'. Mae Smith yn teimlo bod 'sea change' wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf, serch hynny, a mynega ei ryddhad bod Dylan, bellach, yn cael ei gydnabod fel un a gynrychiola 'a modern, hybrid, progressive society' sydd yn cysylltu Cymru 'to a wider world'.<sup>37</sup> Yn yr un modd, wrth alaru am y 'maze of vested interests' a saif 'in the way of a reassessment of Dylan Thomas', bu i'r beirniad o Sais John Goodby ddatgelu ei safle yn y ddrysfa honno pan ddisgrifiodd polisïau iaith Llywodraeth Cymru (a ellid eu hystyried yn go wamal mewn cyd-destun cymharol) fel ffurf ar 'linguistic culturalism', 'imposing the Welsh language from above'.<sup>38</sup> (Does dim sydd yn 'linguistic' nac yn 'cultural' am yr iaith Saesneg, wrth gwrs!) 'There is', medd Goodby, a 'non-correspondence between linguistic culturalism and the incorrigibly mongrel Anglo-Welsh poetry' a greodd Thomas yn ganlyniad i'w 'innumerable links to English poetry' sydd yn tystio i 'an uneven, transcultural, dynamic productive of hybridity'.<sup>39</sup>

<sup>35</sup> Kenneth Rexroth, 'Disengagement: The Art of the Beat Generation' (1959), yn *The Alternative Society* (New York: Herder and Herder, 1970), t. 1.

<sup>36</sup> John Wilkinson, 'Wave Power: The Effacement of the Caesura in Dylan Thomas's Poetry', yn Edward Allen (ed.), *Reading Dylan Thomas* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2019), tt. 15–35. Yma, t. 28.

<sup>37</sup> Dai Smith, 'The fitting up of Dylan Thomas', *Times Literary Supplement Online* <[https://www.the-tls.co.uk/artiCollected Letterses/fitting-dylan-thomas/#>](https://www.the-tls.co.uk/artiCollected%20Letterses/fitting-dylan-thomas/#>) (Cyrcwyd 20 Mawrth 2023).

<sup>38</sup> John Goodby, 'The Liquid Choirs of his Tribes: The Influence of Dylan Thomas' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London: Bloomsbury, 2014), tt. 205–21 (Yma: t. 220).

<sup>39</sup> John Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas: Under the Spelling Wall* (Liverpool: Liverpool University Press, 2014), t. 31.

Rydym yn ddigon cyfarwydd â'r math yma o fyd olwg, lle ystyrir unieithrwydd yn y Saesneg yn arwydd o gymysgrywiaeth flaengar a deinamig, tra bod y gymuned ddwyieithog Gymraeg yn cael ei beirniadu am ei hanoddefgarwch, a'i hanfodolaeth diwylliannol (*cultural essentialism*). Dyma enghraifft o'r hyn y rhybuddia Daniel Boyarin yn ei gylch; y modd y gall y cyffredinol ddileu y neilltuol. Y bydysawd Saesneg yn dileu'r bychanfyd Gymraeg yn yr achos yma.

Ond fel yn achos Paul, mae beirniad eraill wedi mynd ati i osod gwaith Dylan yn y cyd-destun Cymreig a Chymraeg a roddodd fod iddo. Nid Iddewiaeth Rabinaidd yw'r dylanwad perthnasol (nid yn uniongyrchol beth bynnag, fe ddof yn ôl at hynny yn y man) yn achos Dylan Thomas ond, ei gynhysgaeth Gymraeg a drafodwyd yn y gorffennol gan John Ackerman a Walford Davies ac yn fwy diweddar gan Wynn Thomas sydd wedi mynd ati i archwilio syniadaeth y traddodiad Undodaidd yr oedd hen ewythr Dylan Marlais, Gwilym Marles, yn ymgnawdoliad llachar ohono.<sup>40</sup> Mae Andy Webb wedi awgrymu yn ddiweddar bod y gair 'Tawe' yn storïau Dylan yn drawsennw (*metonym*) ar gyfer diwylliant Cymraeg Abertawe a'r cymoedd o'i gwmpas; awgrym a atgyfnerthwyd gyda chyhoeddi cyfrifiad 1921, lle nododd D. J. Thomas bod ei fab chwe mlwydd oed yn meddu'r Gymraeg a'r Saesneg.<sup>41</sup> Yn 'Poem in October' mae Dylan Thomas yn disgrifio

... a child's  
 Forgotten mornings when he walked with his mother  
 Through the parables  
 Of sun light  
 And the legends of the green chapels

And the twice told fields of infancy.<sup>42</sup>

Mae'r gerdd yn disgrifio dringo Sir John's Hill yn Nhalacharn. O'r copa gellir gweld fferm Fernhill, testun un o'i gerddi enwocaf a chartref ei ewythr a'i fodryb. Mae digwyddiadau ei blentyndod yn 'twice told' am iddynt ddiwydd yn y gorffennol a chael eu cofio yn y gerdd, ond mae'r cyfeiriad at gerdded gyda'i fam i'r 'green chapels' – fel Capel Smyrna, Llangain, lle byddai'r gwasanaethau a'r ysgol Sul yn Gymraeg – yn awgrymu bod dwy iaith i'r atgof hwn hefyd; Saesneg y bardd sydd

<sup>40</sup> John Ackerman, *Welsh Dylan: Dylan Thomas' Life, Writing and his Work* (London: John Jones, 1979). Walford Davies, *Dylan Thomas: Writers of Wales*, tt. 10–53. M. Wynn Thomas, *In the Shadow of the Pulpit: Literature and Nonconformist Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2010), tt. 226–55.

<sup>41</sup> Andrew Webb, "'Tawe pressed in upon him": Dylan Thomas, Modernity and the Rural-Urban Divide', yn Kieron Smith a Rhian Barfoot (gol.), *New Theoretical Perspectives on Dylan Thomas* (Cardiff: University of Wales Press, 2020), tt. 61–76. 'Dylan Thomas could speak Welsh, according to the 1921 census', *Nation Cymru*, 7 Jan 2022 <<https://nation.cymru/culture/dylan-thomas-could-speak-welsh-according-to-the-1921-census/>>.

<sup>42</sup> Dylan Thomas, 'Poem in October', *Collected Poems: The Centenary Edition*. Edited by John Goodby (London: Weidenfeld and Nicolson, 2014), t. 161.

yn caniatáu iddo ysgrifennu ei gerdd, a Chymraeg ei fam a'r capeli bythol wyrdd. A yw'r boreau yma yn 'forgotten' gan fod y bardd ar ei ddegfed blwydd ar hugain wedi colli gafael ar iaith y digwyddiadau yma?

Rwy'n awgrymu felly mai un o'r elfennau gwaddodol, neilltuol, yng ngwaith Dylan Thomas, fel yng ngwaith W. D. Davies, yw'r Gymraeg. Yn y gerdd 'After The Funeral', lle mae Dylan yn cofio angladd ei fodryb Ann Jones, mae'n disgrifio ei hun fel

... a desolate boy who slits his throat  
In the dark of the coffin ...<sup>43</sup>

Yn y byd hwn o Gymry Cymraeg, ymddengys bod Dylan yn ymwybodol ei fod wedi ei dorri i ffwrdd oddi wrth traddodiad diwylliannol ei bobl. Â'r gerdd yn ei blaen i bortreadu Anghydfurfiaeth Gymraeg yn grefydd cul a chrebachlyd a oedd wedi andwyo meddwl a chorff ei hen fodryb. Gan ymwrthod â neilltuolrwydd y Gymraeg a chrefydd ei fodryb, mae'r bardd yn dychmygu ei hun yn dderwydd â'r gallu i ddathlu'r ddynoliaeth. Cyffredinolrwydd y bardd Saesneg ei iaith ac nid y pregethwr Cymraeg yw gwir gofiannydd Ann Jones. Yn wir fel 'arall' neilltuol y delweddir y traddodiad crefyddol Cymraeg, yn agosach na Iddewiaeth na Christnogaeth mewn gwirionedd. Mae'r hollt yng ngwddf y bachgen yn symbol o'i bellter oddi wrth y traddodiad hwnnw. Y tu ôl i wyneb y gerdd sydd yn dathlu swyddogaeth y bardd, mae yna isymwybod lle gorwedd y plentyn yn ei arch a'i wddf wedi hollti.

Rwyf yn awgrymu, felly, bod y tyndra a nododd W. D. Davies yn llythrau Paul – 'a conflict between the claims of the old Israel after the flesh and the new Israel after the Spirit' neu rhwng neilltuolrwydd a chyffredinolrwydd – yn nodweddu gweithiau Dylan Thomas hefyd. Mae bardd y cyffredinol yn ymwybodol o'r gwaddol neilltuol Cymraeg. Ond rydw i am fynd gam ymhellach na hynny, gan awgrymu bod yr hyn y mae Dylan yn ei gyflawni yn ei gerddi yn debyg o ran cynnwys a sylwedd i'r hyn y mae W. D. Davies yn ei ddadlenni yn ei gyfrol *Paul and Rabbinic Judaism*.

## VI

Fel parodi o gerdd fodernaidd y darllenir 'Now' gan amlaf. Ond mae'r llinell olaf – 'The two-a-vein, the foreskin and the cloud' – yn awgrymu bod ystyr ddyfnach iddi.<sup>44</sup> Mae'r blaengroen yn awgrymu enwaediad, y cwmwl yn awgrymu'r ysbryd. Ai Cristnogaeth ac Iddewiaeth, felly, yw'r ddau rym sydd yn rhedeg yng ngwythiennau'r ddynoliaeth, ac efallai'n rhedeg yng ngwythiennau cerddi Dylan Thomas? Yn fynych iawn, mae'r tyndra rhwng y cyffredinol a'r neilltuol yng ngwaith Dylan yn cymryd ffurf tyndra rhwng Cristnogaeth ac Iddewiaeth. Ar yr wyneb mae'r gerdd 'Twenty-four years', er enghraifft, yn portreadu gwr ifanc yn

<sup>43</sup> Thomas, 'After the Funeral', *Collected Poems*, t. 101.

<sup>44</sup> Thomas, 'Now', *Collected Poems*, t. 76.

'strutting' i mewn i'r ddinas gan ddychmygu ei hun yn 'gangster' mewn ffilm Hollywood 'dressed to kill', gydag arian yn ei boced.<sup>45</sup> Ond mae yna naratif cudd yn y gerdd pen-blwydd cywasgedig hon yn olrhain genedigaeth a datblygiad dyn, datblygiad sydd hefyd yn torri allan o Iddewiaeth caeedig a chorfforol (sy'n cael ei gynrychioli gan y 'teiliwr' sy'n 'crouching' yn 'doorway' y llawes goch) i Gristnogaeth a fydd 'advance for as long as forever is'. Yn wir mae taith y bachgen ifanc i mewn i'r dref hefyd yn daith Crist i Jerusalem – yr 'elementary town' a hawllir gan y dair prif grefydd fonotheistaidd. Yn nhrydedd llinell y gerdd mae'r 'teiliwr' (sef un o alwedigaethau traddodiadol Iddewon Ewrop) yn ei gwrcwd 'In the groin of the natural doorway',

Sewing a shroud for a journey  
By the light of the meat-eating sun.<sup>46</sup>

Mae Crist yn bresennol yma yn y mwysair 'son / sun', haul a mab. Yn wir mae'r haul yn bwyta materoliaeth corff y mab. Dyma'r 'Wythnos Fawr', ac mae'r cig a'r gwaed yn awgrymu'r croeshoeliad a'r cymun, yn arbennig felly o'u cyplysu â'r amdo, sydd yn awgrymu amdo Turin yr honnir i gorff Crist gael ei lapio ynddo wedi'r croeshoeliad. Os mai sail cyffredinoliaeth Crist yw'r ffaith iddo dalu am bechodau'r ddynoliaeth oll, yna ymddengys arian yma mewn perthynas a gwaed, symbol o fradychiad Crist ac arian fel symbol o dalu am ddyled ein pechodau. Mae'r torri allan o'r groth, o fachgendod i fod yn ddyn, yn cael ei symbylu yma hefyd fel yr ymryddhau, y torri allan, o Iddewiaeth y corff a'r teiliwr i Gristnogaeth cyffredinol y bardd.

Credaf bod y darlleniad yma o 'Twenty-four years' (cerdd olaf *The Map o Love*) yn cynnig allwedd ar gyfer agor rhai o ddirgelion y dilyniant hir a thywyll o ddeg soned, 'Altarwise by owl-light' (cerddi olaf *Twenty-Five Poems*).<sup>47</sup> Mae bywyd y bardd a bywyd Crist yn cael eu cyplysu a'u cyflwyno ar gynfas llawer ehangach yma, â'r cerddi wedi derbyn triniaethau hynod amrywiol.<sup>48</sup> Awgryma H. H. Kleinman mai adrodd hanes twf Cristnogaeth a ffydd y bardd y mae'r dilyniant,<sup>49</sup> a chredaf bod y berthynas rhwng Iddewiaeth a Christnogaeth, y blaengroen a'r ysbryd, y corff a'r enaid, yn ganolog i gynnwys a ffurf y sonedau rhyfeddol yma. Gan fod y soned gyntaf yn cynnwys cyfeiriad at 'cradle' ac yna'r ail yn darlunio 'child that sucketh

<sup>45</sup> Thomas, 'Twenty-four years', *Collected Poems*, t. 107.

<sup>46</sup> Thomas, 'Twenty-four years', *Collected Poems*, t. 107.

<sup>47</sup> Thomas, 'Alterwise by owl-light', *Collected Poems*, tt. 82–86.

<sup>48</sup> Adrodd hanes Hercules wna'r sonedau yn ôl Elder Olson, tra mai cyfres o anturiaethau twyllwr o fardd annibynadwy ydynt yn ôl John Goodby. Elder Olson, *The Poetry of Dylan Thomas* (Chicago: The University of Chicago Press, 1954), tt. 63–69. John Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas: Under the Spelling Wall* (Liverpool: Liverpool University Press, 2014), t. 261–3. Darllena Goodby y gerdd fel 'mini epic of the trickster spirit', tt. 262–3.

<sup>49</sup> H. H. Kleinman, *The Religious Sonnets of Dylan Thomas: A Study in Imagery and Meaning* (Berkeley: University of Californai Press, 1963).

long' cyn mynd ymlaen ddarlunio digwyddiadau bywyd, mae lle i ddarllen y gerdd fel hanes twf unigolyn fel yn 'Twenty-four years'. Serch hynny, rydym yn cychwyn trwy gyrchu'r 'allor' sydd yn symbol o farwolaeth a'r croeshoeliad. Gan fod yr allor yn ymddangos ar gychwyn y stori, gall hefyd awgrymu enwaediad plentyn. Mae Luc 2:21 yn adrodd hanes enwaedu'r Iesu yn unol â'r gyfraith Iddewig, golygfa a fu'n destun gweithiau celf o'r ddegfed ganrif ymlaen gan Giovanni Bellini a Albrecht Dürer ymysg eraill.<sup>50</sup> Hyderaf y bydd rhestru rhai o'r prif allweddeiriau a delweddu, gan nodi mewn cromfachau ym mha soned y maent yn ymddangos, yn ddigon i awgrymu'r cysylltiad parhaus rhwng yr enwaediad a'r croeshoeliad yn y dilyniant: 'Old cock' (I); 'bones unbuttoned' (I); 'weans on an artery' (II); 'Rung bone and blade' (II); 'Rip of the vaults' (III); 'marrow ladle' (III); 'Rip Van Winkle' (III); 'descending bone' (III); 'cutting flood' (IV); 'sheath-decked jacks' (V); 'For loss of blood I fell on Ishmael's plain' (V); 'Jonah's Moby' (V); 'Pluck, cock, my sea eye' (VI); 'blew out the blood gauze through the wound of manwax' (VI); 'Jack Christ' (VIII); 'Unsex the skeleton' (VIII); 'With priest and pharaoh bed my gentle wound' (IX); 'rhubarb man peeled' (X); 'the rude, red tree' (X). Gellir treulio amser yn trafod y delweddu yma i gyd, ond gobeithio bod symbolaeth y ffalws, y rhywgo, y torri a'r gwaed sy'n cysylltu'r enwaediad â'r croeshoeliad, yn ddigon amlwg. Awgrymaf felly bod 'allor' y teitl yn cyfeirio at enwaediad yr Iesu yn ogystal â'i groeshoeliad. Dyma gerdd sydd eto yn ein harwain o'r 'blaengroen' i'r 'cwmwl', ac yn myfyrio ar y 'torri allan' o Iddewiaeth at Gristnogaeth.

Mae'n arwyddocaol bod yr olygfa allweddol yn natblygiad y gerdd o enwaediad at atgyfodiad, ac o'r neilltuol i'r cyffredinol, yn digwydd hanner ffordd drwyddi. Egyr soned V fel hyn:

And from the windy West came two-gunned Gabriel,  
From Jesu's sleeve trumped up the king of spots,  
The sheath-decked jacks, queen with a shuffled heart<sup>51</sup>

Dyma'r angel Gabriel yn ymddangos fel cowboi mewn ffilm Hollywood, gyda drylliau yn ei 'holster' ac yn barod i chwarae cardiau. Gan Gabriel mae'r llaw orau, y 'trump card', sydd yn di-orseddu Duw yr Hen Destament trwy gyhoeddi ('trumpet') efengyl y Testament Newydd. Mae'n bosib bod the 'King of Spots' yn cyfeirio at Dduw'r Hen Destament sydd yn gwahaniaethu rhwng y 'speckled and spotted cattle' yn Genesis 30.<sup>52</sup> Fel nodwyd yn gynt, hanfod Cristnogaeth yw ei fod yn agored i'r Iddewon a'r Cenhedloedd ac felly nid yw'n gwahaniaethu rhwng y brith a'r pur, y Groegwr a'r Iddew, yr enwaededig a'r di-enwaededig. Gall

<sup>50</sup> Giovanni Bellini, *Circumcision of Christ* (c.1500) yn y National Gallery, Llundain. Albrecht Dürer, *The Circumcision* (c.1504), yn The Metropolitan Museum of Art, Efrog Newydd.

<sup>51</sup> Thomas, 'Alterwise by owl-light', *Collected Poems*, t. 84.

<sup>52</sup> Genesis 30:32.

enwaediad symbolaidd y galon ddiorseddu enwaediad llythrennol y corff, ac y mae'r 'Jacks' felly yn dal i feddu eu blaengrwyn ('sheath-decked'). Ar ôl shifflor cardiau maent yn cael eu torri fel arfer, wrth gwrs, ond nid yw'r 'cut' yn dilyn y 'shuffle' yn y disgrifiad o'r 'queen with a shuffled heart'. Hwyrach bod y frenhines hithau wedi derbyn 'enwaediad y galon', chwedl Paul, mewn byd Cristnogol lle 'nad oes gwryw na benyw'. Mae'n bosib bod y mwysair 'trumped' yn ein cyfeirio hefyd at ddiwedd stori'r Iesu, yn ogystal â'i chychwyn. Peilat yw'r 'king of spots' yn y cyddestun yma, sydd yn golchi gwaed Crist oddi ar ei ddwylo (y sbotiau gwaed yn adlais posib o Lady Macbeth yn nrama Shakespeare) wedi iddo gondemnio'r Meseia i farwolaeth ar gyhuddiadau 'trumped-up'. Un ffordd neu'r llall, gan yr Iesu y mae'r garden cryfaf sydd yn chwalu'r canolfuriau rhwng pobloedd ar y ddaear, a'r ffin rhwng marwolaeth a bywyd fel ei gilydd.

Cychwyna'r soned olaf gyda 'sailor from a Christian voyage' yn teithio 'Atlaswise'. Nid ydym bellach yn cyrchu'r allor fel ar gychwyn y gerdd, ond yn cwmpasu'r byd. Mae Cristnogaeth gyffredinol yn lledu drwy'r byd ac mae'r bardd fel pe bai yn dathlu'r cyfanfydol cyn mynd yn ei flaen i ofyn:

What rhubarb man peeled in her foam-blue channel  
Has sown a flying garden round that sea-ghost.

Mae materoliaeth Eden wedi ei ddyrchafu i gyffredinoliaeth yr ysbryd â'r ardd yn awr yn hedfan. Awgryma H. H. Kleinman mai Paul yw'r 'sailor' a'r 'rhubarb man' sydd yn cario Cristnogaeth i'r byd, ac er ei fod yn 'peeled' (wedi ei enwaedu) nid yw hynny yn ei amddiffyn rhag cael ei flingo (ystyr arall posib i 'peeled') gan ei wrthwynebwyr.<sup>53</sup> Atgyfnerthir darlleniad Kleinman o'i gysylltu gyda'r adnodau ar enwaedu o Lythyr Paul at y Philipiadaid:

Gwylwch y cŵn, gwylwch y drwgweithredwyr, gwylwch y rhai nad ydynt ond yn gwaedu'r cnawd. Oherwydd ni yw'r rhai gwir enwaededig, ni sy'n addoli trwy Ysbryd Duw, yn ymfalchïo yng Nghrist Iesu heb ymddiried yn y cnawd – er bod gennyf o'm rhan fy hun, le i ymddiried yn y cnawd hefyd.<sup>54</sup>

Mae gwrthodiad Paul o'i gynhysgaeth Iddewig ar ei ffyrnicaf, yma. Noda er ei fod 'wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd, o hil Israel, o lwyth Benjamin, yn Hebrëwr o dras Hebrëwyr, yn ôl y Gyfraith yn Pharisead', ystyria hyn oll 'yn golled oherwydd Crist' a chyfrifa 'y cwbl yn ysbwriel, er mwyn i mi ennill Crist'.<sup>55</sup> Ond er mai mawrygu'r cyffredinol wna Paul, mae'r cŵn yn ein harwain yn ôl at soned gyntaf 'Alterwise by owl-light' lle daw'r darlennydd ar draws:

<sup>53</sup> Kleinman, tt. 123–124.

<sup>54</sup> Llythyr Paul at y Philipiadaid 3:2–4. Kleinman, t. 146, n. 9.

<sup>55</sup> Mae W. D. Davies yn trafod yr adnodau yma yn *Paul and Rabbinic Judaism*, tt. 69–70. Gweler hefyd ddadansoddiad Daniel Boyarin yn *A Radical Jew*, tt. 81–2.

[...] a dog among the fairies,  
 The atlas-eater with a jaw for news  
 Bit out the mandrake with tomorrow's scream.<sup>56</sup>

Planhigyn sydd yn aml yn ymdebygu o ran siâp i berson yw'r mandraglys ac sydd, yn ôl ofergeol gwerinol, yn sgrechian wrth gael ei dynnu o'r tir. Fe'i cysylltir â'r gallu i genhedlu yn Genesis 30. Ymddengys felly bod yma gi sydd yn 'gwaedu'r cnawd', yn unol â rhybudd Paul, neu o leiaf yn ymosod ar yr organau rhywiol a symbylir gan y mandraglys. Cofiw'n i Dylan Thomas fod yn newyddiadurwr yn ddy'n ifanc, felly hwyrach mai ef sydd â'r 'jaw for news', yn enwedig o gofio mai fel ci y cyfeiriodd ato ei hun yn nheitl ei gasgliad o storïau byrion *Portrait of the Artist as a Young Dog* (1940). Felly os yw Paul yn ein rhybuddio i wylïo'r cŵn sydd 'ond yn gwaedu'r cnawd', uniaethu â ffigwr y ci, a neilltuolrwydd y corff a'r cnawd, wna Dylan Thomas yma.

Yn wir, cyfoddir y cyffredinol Cristnogol â'r gwaddod neilltuol trwy gydol y dilyniant. Amlygir y neilltuol ar ffurf Iddewiaeth yr Hen Destament (mae Adda, Jacob, Jonah ac Ishmael i gyd yn ymddangos), y weithred o enwaedu 'yn y cnawd'. Mae neilltuolrwydd traddodiadau cerddorol Celtaidd a'r corff benywaidd yn cael eu cyplysu yn nelwedd 'the bagpipe breasted ladies in the deadweed' (VI), ac awgryma llinellau fel 'Lop, love, my fork tongue' fod cysylltiad rhwng enwaedu'r corff a cholli iaith. O'r chweched soned y daw delwedd y dafod fforchog, cyn i 'Old cock' ymddangos 'from nowhere' gan adael y 'minstrel tongue' yn 'lopped'. A oes cysyllt rhwng y delweddau yma â'r 'desolate boy who slits his throat' yn 'After the funeral'? Ai'r Gymraeg yr amddifadwyd Dylan ohoni wedi ei blentyndod sydd yma yn nelwedd y 'lopped' 'tongue'?<sup>57</sup> Daniel Boyarin a rybuddiodd bod Paul, wrth droi ei gefn ar enwaediad y corff hefyd yn troi ei gefn ar neilltuolrwydd ei bobl.<sup>58</sup> Os mai teithio tua'r cyffredinol a wnawn yng ngherddi Dylan Thomas, mae yna hefyd ymwybyddiaeth o'r neilltuol ar ffurf yr hyn a anghofiwyd neu a dorwyd i ffwrdd.

Mae'r ymwybyddiaeth hwnnw o'r neilltuol yn amlwg iawn yn y gerdd 'This bread I break'.<sup>59</sup> Awgrymodd Aneirin Talfan Davies mai yn y gerdd hon y gwelwn Dylan yn torri o ddelweddaeth Brotestannaidd at ddelweddaeth Gatholig, ond hyd y gwelaf i nid yw'r gerdd yn ymwneud â'r ddadl am draws-sylweddiad ('transubstantiation') a fyddai'n ganolog i ddarlleniad o'r fath.<sup>60</sup> Yn hytrach, mae'r gerdd yn mynd â'r naratif yn ôl gam ymhellach, gan fynd i'r afael â thuedd dinistriol dyn i droi'r 'merry oat' yn fara a'r 'joyful grape' yn win. Mae'r 'ymryddhau', y 'torri allan' o'r neilltuol i'r cyffredinol a ymgawdolir yng Nghrist ac a symbylwyd

<sup>56</sup> Thomas, 'Alterwise by owl-light', *Collected Poems*, t. 82.

<sup>57</sup> Mae Marc Shell yn trafod y cysylltiad rhwng enwaedu a iaith yn ei gyfrol *Stutter* (Cambridge MA: Harvard UP, 2005), tt. 108–9, 273 n. 17.

<sup>58</sup> Daniel Boyarin, *A Radical Jew*, tt. 80–82.

<sup>59</sup> Thomas, 'This bread I break', *Collected Poems*, tt. 50–1.

<sup>60</sup> Aneirin Talfan Davies, *Dylan: Druid of the Broken Body*, t. 21.

yn y bara a'r gwin yn cydfodoli ag ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei ddileu wrth i'r 'flesh you break, this blood you let / Make desolation in the vein'. Hynny ydi, mae'r naratif Cristnogol o'r neilltuol i'r cyffredinol fel petai'n cael ei throï tu chwith. 'Dylan's Christ cries out against the torture of nature' medd M. Wynn Thomas.<sup>61</sup> Nid ymryddhau na thorri allan y mae'r gerdd hon yn ei wneud, ond teithio yn ôl at y gwreiddiau, y ffynonellau. Y neilltuol ar ffurf y ceirch a'r grawnwin yw'r ffocws yma. Nid ymryddhad ac edifeirwch a ganfyddir yng ngwaed Crist ond dinistr.

Os oes *jouissance* dilyffethair yn perthyn i gerddi Dylan Thomas fel y mae Rhian Bubear wedi dadlau yn ddiweddar, lle dethlir natur, y corff a rhywioldeb, mae yna hefyd alar a marwnadu.<sup>62</sup> Does dim gofod gen i i drafod y gerdd gymhleth 'A Grief Ago' yn fanwl, ond mae yna sawl naratif yn cyd-blethu ynddi: mae'n ddisgrifiad o ryw a chenhedlu, mae fel petai'n cymryd lle mewn mynwent ac mae awgrym o farwolaeth mam neu blentyn, ac mae'n ailadrodd stori Exodus yr Iddewon o'r Aiff. Llinellau mwyaf rhyfeddol y gerdd yw'r canlynol

... the leaden bud  
Shot through the leaf,  
Was who was folded on the rod the aaron  
Rose cast to plague,  
The horn and ball of water on the frog  
Housed in the side.<sup>63</sup>

Mae'r Exodus yma ar ffurf gwialen Aaron. Mae Crist yma ar ffurf Rhosyn Saron, ac hyd yn oed adlais o emyn enwog Ann Griffiths o bosib.<sup>64</sup> Ac yna – o ddarllen y drydedd llinell tu chwith – mae'r traddodiad Cymraeg yma ar ffurf Arianrhod a orfodwyd i gamu dros ffon Math fab Mathonwy i brofi ei gwryfydod. Wrth wneud hynny fe syrthia dau blentyn allan ohoni, un ohonynt yw Dylan Eil Ton sy'n neidio fel broga i'r môr. Yn y llinellau yma o 'A Grief Ago' mae corff y fenyw wrth iddi roi genedigaeth, y traddodiad Iddewig a'r traddodiad Cymraeg – rhywedd, hil ac iaith – oll wedi eu cywasgu. Gellir dadlau bod cyffredinoliaeth Dylan Thomas – sydd yn cael ei ddathlu am ei hybridedd, ei ryddid o hualau iaith a chenedligrwydd, ei fwynhad di-lyffethair yn ei rywioldeb – yn ddbynnol ar ddileu llais y ferch ac ar ddileu neilltuolrwydd yr Iddew a'r Gymraeg. Ond nid yw'n llwyddo eu dileu yn llwyr. Maent yn dychwelyd fel ysbrydion i aflonyddu'r is-ymwybod. Fel mae'r teitl 'A grief ago' yn ei awgrymu, os oes dathlu'r cyffredinol yng ngwaith Dylan, mae

<sup>61</sup> M. Wynn Thomas, 'Marlais', yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration*, tt. 30–41 (yma: t. 38).

<sup>62</sup> Mae Rhian Barfoot yn amlygu'r *jouissance* yma yn *Liberating Dylan Thomas: Rescuing a Poet from Psycho-sexual Servitude* (Cardiff: University of Wales Press, 2015), t. 128 a John Wilkinson yn gwneud rhai pwyntiau tebyg yn 'Wave Power', t. 22.

<sup>63</sup> Thomas, 'A Grief Ago', *Collected Poems*, t. 81.

<sup>64</sup> Ann Griffiths (1776–1805), 'Wele'n sefyll rhwng y myrtyrwydd', Emyn 319, *Caneuon Ffydd* (Llandysul: Gomer, 2001), t. 377. Awgryma Tudur Hallam bod cyfrolau Dylan Thomas yn ymdebygu i lyfrau emynau yn 'Curse, bless, me now': Dylan Thomas and Saunders Lewis, *Journal of the British Academy* (2016), tt. 211–53. Yma, tt. 227–229.



yna hefyd alaru am y neilltuol. Fel yng ngwaith W. D. Davies, mae yna ymwybyddiaeth o'r hyn a gollir, yr hyn sy'n cael ei adael ar ôl, ei dorri i ffwrdd, yn y naid at y cyffredinol.

## VII

O ran strwythur eu meddwl, felly, credaf bod yna debygrwydd rhwng Dylan Thomas a'i gyfoeswr W. D. Davies, a chredaf ymhellach bod gan eu Cymreictod rhywbeth i'w wneud â hynny. Mae tyndra yng ngwaith y ddau rhwng y cyffredinol a'r neilltuol. Ym meddwl y Gorllewin Cristnogol, 'yr Iddew', mewn atalnodau, sydd wedi chware rôl yr 'arall'. Ac nid yw'n syndod efallai bod y Cymry wedi trafod eu aralledd yn nrych Iddewiaeth, fel y mae Jasmine Donahaye, ymysg eraill, wedi ei nodi.<sup>65</sup> Medd W. D. Davies mewn cyfweliad:

Mae profiad yr Iddew a phrofiad y Cymro yn wahanol iawn ond mae nhw'n debyg hefyd. Un agwedd debyg yw bod yr Iddew bob amser wedi bod dan rhywun, dan y Saeson, dan y Ffrancwr, dan yr Almaenwr, fel y mae'r Cymro wedi bod dan y Sais i ryw raddau, ac am hynny mae 'na gydymdeimlad â'r Iddew yn dod yn naturiol, does dim angen ei greu, mae o yna heb ofyn.<sup>66</sup>

Mae yna ddigon i'w gwestiynu yma, ond does dim amau diffuantrwydd y dweud. Ond serch y cydymdeimlad, arddel cyffredinolrwydd a wna W. D. Davies yn y pen draw, fel y bardd a gyfarfu yn 1953. Oes modd cyrchu cyffredinolrwydd sydd yn parchu'r arall ac yn caniatáu amrywiaeth? Un a oedd yn Aberhonddu yn fyfyrwr yr un pryd â W. D. Davies ac a ddaeth hefyd yn ysgolhaig yn maes y Testament Newydd oedd Isaac Thomas. Fe wnaf i gloi trwy ddyfynnu adolygiad Thomas ar un o weithiau gorchestol eraill W. D. Davies, *The Gospel and the Land* (1974), am ei fod yn berthnasol i'r hyn yr ydw i wedi bod yn ei ddadlau:

Yr wyf yn synhwyro bod yr awdur yn drwgdybio pob ffin genedlaethol a thiriogaethol, ac nid heb achos, wrth gwrs. Y mae gwedd hunanol, elyniaethus a bygythiol i ffiniau, ond onid gwyrddroad yw hyn o'u gwir amcan, sef gwarchod y trefnusrwydd hwnnw sy'n amod tyfiant bywyd yn ei amrywiaeth godidog? Y mae treisio'r ffin yn creu distryw, ond y mae parchu'r ffin yn ei throi'n ddrws.<sup>67</sup>

Dyma ddadl y byddwn am ei harddel, cyn belled a bod y drws ar agor. Agorer y drysau.

Dyfynnir Dylan Thomas gyda chaniatâd David Higham Associates. Hawlfraint yn eiddo i 'The Dylan Thomas Trust'.

<sup>65</sup> Jasmine Donahaye, *Whose People: Wales, Israel, Palestine* (Cardiff: University of Wales Press, 2012).

<sup>66</sup> John Roberts, 'Cyfweliad gyda W. D. Davies (1911–2001)', t. 212.

<sup>67</sup> Isaac Thomas, 'Adolygiad o W. D. Davies, *The Gospel and the Land*', *Y Traethodydd*, CXXX (1975), tt. 140–147. Yma, t. 147.